Easy Read

NCMH
National Centre for Mental Health
Canolfan Iechyd Meddwl Genedlaethol

Engage To Change

# Engage to Change

# Beth rydyn ni wedi ei ddysgu drwy ein gwaith

Elisa Vigna, Stephen Beyer, Andrea Meek and Jacob Meighan



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan y **tîm gwerthuso Engage to Change ym Mhrifysgol Caerdydd**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Gwersi allweddol o'r prosiect Engage to Change**.'

**Chwefror 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi .



Efallai bod y geriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 12**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Engage to Change**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** www.engagetochange.org.uk

**E-bost:** engagetochange@ldw.org.uk

**Ffôn:** 029 20681160

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Easy Read Wales** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Gwersi rydyn ni wedi eu dysgu....................................................................4**

**Beth ddylai ddigwydd nesaf.........................................................................8**

**Geiriau Anodd............................................................................................12**

# Gwersi rydyn ni wedi eu dysgu

## 1. Cyflogaeth gyda chefnogaeth



Mae pobl gydag anabledd dysgu neu **awtistiaeth** yn gallu gweithio os ydyn nhw'n cael y swydd gywir a'r gefnogaeth gywir.



Gall pobl ag **awtistiaeth** gael rhai pethau'n anodd. Fel cyfathrebu a bod gyda phobl eraill.



Mae'n bwysig rhoi gwasanaethau cyflogaeth gyda chefnogaeth da sydd yn cynnwys hyfforddiant swydd.

## 2. Sut rydyn ni'n llwyddo yng Nghymru



Mae'r prosiect Engage to Change yn gwneud yn dda iawn yng Nghymru.



Mae 1 allan o bob person ifanc ar y prosiect wedi cael swyddi drwy **Engage to Change**.



Mae bron i hanner y bobl ifanc ar y prosiect wedi cael swyddi drwy **safleoedd interniaeth Prosiect SEARCH DFN Engage to Change**.



Mae tua 3 allan o bob 10 person ifanc wedi cael swyddi drwy **interniaethau** gyda chefnogaeth.

> **Interniaeth** gyda chefnogaeth ydy pan mae myfyriwr yn gweithio i gorff i gael hyfforddiant a phrofiad.

## 3. Beth mae pobl ifanc a'u teuluoedd yn ei ddweud

Mae pobl ifanc a'u teuluoedd wedi dweud bod pobl ifanc:



- Yn teimlo'n fwy hyderus
- Yn gallu gwneud rhagor o bethau ar eu pen eu hunain
- mae ganddyn nhw well iechyd meddwl
- mae ganddyn nhw ansawdd bywyd gwell
- maen nhw'n teimlo'n dda amdanyn nhw eu hunain
- maen nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu cynnwys.

# 4. Cefnogi cyflogwyr



Rydyn ni'n gweithio gyda chyflogwyr i'w cefnogi nhw i roi swyddi i bobl anabl. Ac i'w dysgu nhw am yr holl resymau da dros weithio gyda phobl anabl.



Mae'r cyflogwyr rydyn ni wedi gweithio gyda nhw wedi bod yn hapus iawn gyda'r person ifanc maen nhw wedi rhoi swyddi iddyn nhw.



Mae cyflogwyr yn dweud eu bod nhw'n gweithio'n galed a'u bod nhw'n gallu ymddiried ynddyn nhw i wneud tasgau.



Mae cyflogwyr yn dweud eu bod nhw'n hapus gyda'r hyfforddiant swydd rydyn ni'n ei gynnig a'r gefnogaeth gan hyfforddwyr swyddi.



Mae wedi helpu cyflogwyr i gael staff mwy **amrywiol.**

Mae **amrywiol** yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud dewisiadau gwahanol neu yn dda am wneud pethau gwahanol.

# 5. Beth mae pobl ifanc yn feddwl am ein gwaith



Fe wnaeth y bobl ifanc oedd wedi cymryd rhan yn ein prosiect ddweud eu bod nhw'n hapus iawn gyda'r ffordd rydyn ni'n eu cefnogi nhw i gael gwaith gyda thâl.

**Maen nhw'n hapus am:**



- sut rydyn ni'n cymryd amser i ddysgu rhagor amdanyn nhw. Er enghraifft, beth maen nhw'n hoffi a beth maen nhw'n gallu ei wneud yn dda



- sut maen nhw'n gallu rhoi cynnig ar swydd i'w helpu nhw i benderfynu beth maen nhw yn ei hoffi




- darganfod y lleoliadau gwaith a'r swyddi cywir i gyd-fynd â'u sgiliau.

# Beth ddylai ddigwydd nesaf



Fe ddylai Llywodraeth Cymru wneud yn siŵr bod rhagor o gyflogaeth gyda chefnogaeth ac interniaethau gyda chefnogaeth ar gael i bobl gydag anabledd dysgu ac **awtistiaeth**.



Fe ddylen nhw gefnogi cyflogwyr sydd yn gweithio gyda pob math o wahanol fathau o bobl, yn cynnwys pobl anabl.



Fe ddylai Llywodraeth Cymru dalu am **Raglen Cyflogaeth gyda Chefnogaeth Genedlaethol a Rhaglen Interniaeth Gynhwysol.**



Mae angen iddyn nhw ei gwneud yn fwy hawdd i bobl ddefnyddio'r gwasanaethau yma i gael swydd gyda thâl.



## Ei gwneud yn fwy hawdd i ddefnyddio Mynediad i Waith

**Mynediad i Waith** ydy arian gan yr **Adran Gwaith a Phensiynau.** I gefnogi pobl anabl i gael swydd gyda thâl.




**Mae Mynediad** i Waith yn gallu helpu i gefnogi rhagor o bobl.



**Mae Mynediad** i Waith yn gallu cael ei ddefnyddio ar gyfer pethau fel trafnidiaeth i fynd i'r gwaith. Neu i brynu offer arbennig .

## Cael cefnogaeth o'r ardal leol




Mae'r **Adran Gwaith a Phensiynau** yn bwriadu dechrau rhaglen Gyflogaeth Gyda Chefnogaeth leol ar draws gwledydd Prydain i roi arian a chael rhagor o hyfforddiant swyddi.




Rydyn ni wedi dysgu ei bod yn well cael hyfforddwyr swyddi o'r un ardal leol â chyflogwyr.



Os ydy awdurdodau lleol eisiau defnyddio arian Hyfforddiant Swyddi **Adran Gwaith a Phensiynau**, mae’n bwysig eu bod nhw’n cynnwys cyflogaeth gyda chefnogaeth yn eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

## Cynlluniau clir ar gyfer cyflogaeth gyda chefnogaeth




Mae angen inni ddefnyddio mwy o gyflogaeth gyda chefnogaeth yng Nghymru. Fe fydd hyn yn helpu i wneud Cymru yn lle gwell i weithio ac i fyw ynddi.

Fe fydd yn helpu Llywodraeth Cymru i ateb nodau eu deddfau:




- y Ddeddf Llesiant
- y Ddeddf Cenedlaethau’r Dyfodol
- Gwarant Ieuenctid Cymru




Fe ddylai Llywodraeth Cymru wneud yn siŵr bod cynlluniau clir ar gyfer cyflogaeth gyda chefnogaeth.



Felly mae pobl gydag anghenion cefnogi ychwanegol yn gallu defnyddio cyflogaeth gyda chefnogaeth

# Geiriau Anodd

## Amrywiol

Mae amrywiol yn meddwl nad ydy pawb yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o gefndiroedd gwahanol, yn gwneud dewisiadau gwahanol neu yn dda am wneud pethau gwahanol.

## Awtistiaeth

Gall pobl ag awtistiaeth gael rhai pethau'n anodd. Fel cyfathrebu a bod gyda phobl eraill.

## Interniaeth gyda chefnogaeth

Interniaeth ydy pan mae myfyriwr yn gweithio i gorff i gael hyfforddiant a phrofiad.